Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **15 Medi 2011**

Teitl*:* Prifysgolion yn parhau i gael effaith bositif ar yr economi

Mae degfed arolwg blynyddol ar sut mae prifysgolion yn gweithio gyda busnes ac yn cynhyrchu busnes yn dangos eu bod yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru.

Mae Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch â Busnes a'r Gymuned (HE-BCI) yn dangos sut mae prifysgolion Cymru yn datblygu eu harbenigedd a'u cyfleusterau, ac yn datblygu ac yn cymhwyso'u gwybodaeth gyda busnesau ac o fewn y gymuned ehangach.

Mae prifysgolion wedi parhau i gyflawni'n uwch na phwysoliad y DU sef tua 5% mewn sawl maes gweithgarwch, ac wedi gwella'u cyfran mewn gweithgareddau eraill.

Yn 2009/10, roedd perfformiad Cymru yn uwch na'r pwysoliad yn y DU mewn meysydd fel:

- Gwaith ymchwil cydweithiol a oedd yn cynnwys cyllid cyhoeddus a chyllid gan fusnes 6%
- Incwm o raglenni adfywio a datblygu 6%
- Trwyddedau meddalwedd yn unig a ddyfarnwyd 7%
- Nifer y cwmnïau deilliedig gweithredol a chwmnïau newydd a gychwynnwyd gan staff prifysgolion sydd wedi goroesi tair blynedd o leiaf 8%

- Nifer y cwmnïau deilliedig gweithredol a chwmnïau newydd a gychwynnwyd gan raddedigion sydd wedi goroesi tair blynedd o leiaf 11%

Mewn meysydd eraill, mae Cymru'n perfformio o dan y gyfran ddisgwyliedig o 5% o holl weithgarwch addysg uwch y DU yn gyffredinol, yn enwedig mewn perthynas â masnacheiddio eiddo deallusol y mae prifysgolion yn berchen arno. Fodd bynnag, mae'r arolwg diwethaf yn cadarnhau cynnydd yn lefelau'r gweithgarwch masnacheiddio a'r incwm y mae'n ei gynhyrchu.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae data'r arolwg diwethaf yn dangos bod prifysgolion Cymru yn parhau i gael effaith bositif ar yr economi a'r gymdeithas, hyd yn oed mewn sefyllfa economaidd anffafriol. Rydym yn cydnabod yr holl ddatblygiadau o safon uchel sy'n digwydd yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Ar ben hynny, rydym yn gweld cynnydd mewn gweithgarwch lle mae Cymru wedi'i chymharu'n anffafriol â gweddill y DU yn draddodiadol, gan gynnwys incwm o fasnacheiddio eiddo deallusol ac mewn meysydd o ymchwil cydweithredol.

"Er ein bod wedi gweld dirywiad mewn gweithgarwch yn gyffredinol yn y DU mewn nifer o feysydd, mae rhai wedi taro Cymru'n arbennig o galed, fel gostyngiad mewn gweithgarwch ymchwil contract a chyfanswm nifer y dyddiau dysgu DPP neu gyrsiau addysg barhaus a ddarperir. Mae hefyd yn dangos, er bod prifysgolion Cymru yn llwyddiannus wrth ryngweithio â busnesau bach a chanolig, nid ydynt mor llwyddiannus wrth ennill cytundebau gwerth uchel gyda chwmnïau mwy o faint. Mae hyn yn fater rydym yn ymchwilio iddo ar hyn o bryd gyda'r sefydliadau eu hunain.

"Byddwn yn parhau i weithio gyda phrifysgolion i roi hwb i'w llwyddiant a'u perfformiad ym mhob maes, er eu lles eu hunain, a Chymru gyfan. "

CCAUC - cysyllter ag: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu
029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Nodiadau

Mae'r degfed adroddiad blynyddol *Rhyngweithiad Addysg Uwch â Busnes a'r Gymuned (HE-BCI)* yn gyhoeddiad ar y cyd gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS), a'r cyrff cyllido addysg uwch yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (AU;
- ymchwil a wneir gan sefydliadau AU; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol a chomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.